# Mat Mentor Blwyddyn 1 (TAR1 a TAR2)

Pwrpas y mat hwn yw cefnogi a strwythuro sesiynau mentora gyda'ch myfyriwr, ac ynghyd â'r Ffurflen Adolygu Ymarfer, i olrhain cynnydd y myfyriwr. Ansawdd y drafodaeth yw'r agwedd bwysicaf, ond gyda'ch myfyriwr, bydd angen i chi benderfynu ar fformat ar gyfer cofnodi pwyntiau allweddol y drafodaeth (e.e., dyddlyfr, log gweithredu, Cynllunydd Ysgol Bartner). Bydd angen i fyfyrwyr gofnodi'r targedau SMART tymor hir o'r drafodaeth ar eu Traciwr Targedau ar y PDP. Sylwer, efallai y gofynnir i Fentoriaid am dystiolaeth o sut maen nhw'n cynllunio ac yn olrhain cynnydd eu myfyrwyr.

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

## Cynnydd Addysgeg

Am rhagor o wybodaeth am ddisgwyliadau ymarfer dysgu ar gyfer Blwyddyn 1 (TAR1 a TAR2), cyfeiriwch at y Cynllunydd Ysgol Bartner a/neu'r Canllaw ar Ymarfer Dysgu.

-Beth ydych chi'n teimlo oedd yn gweithio yn eich addysgu?

-Beth ydych chi wedi'i fwynhau?

-Beth ydych chi'n meddwl oedd yn llai llwyddiannus am eich addysgu?

-Pa agwedd(au) sydd wedi bod yn heriol i chi?

-Pa dystiolaeth oedd o'r plant yn dysgu?

-Pa adnoddau ac astudiaethau y gallech eu defnyddio i ddatblygu eich dulliau ymhellach?

## Datblygiad Cymraeg

Adolygu cynnydd ar draws sgiliau gwrando, darllen, ysgrifennu a llafaredd y myfyriwr. Hefyd, mae angen i fyfyrwyr ystyried sut maent yn datblygu sgiliau Cymraeg y dysgwyr.

-Beth yw lefel eich Cymraeg?

Edrychwch ar y disgrifiadau ar y fframwaith.

-Sut ydych chi'n datblygu eich Cymraeg e.e. drwy gyrsiau Dysgu Cymraeg?

-Ydych chi'n cynnwys y Gymraeg wrth gynllunio gwersi?

-Oes angen mwy o gefnogaeth arnoch?

## Adolygu Tystiolaeth Ymarfer Dysgu

Dyma gyfle i chi edrych ar dystiolaeth y myfyriwr o ran:

- Cynllunio a gwerthuso gwersi
- Ystyried Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd
- Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP)

-Ble ydych chi'n teimlo eich bod wedi gwneud cynnydd yn erbyn y safonau SAC?

- Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi hyn?

-Pa safonau sydd angen blaenoriaethu?

## Adolygiad o gynnydd

Am wybodaeth fanwl o'r broses adolygu cynnydd myfyrwyr Blwyddyn 1 (TAR1 a TAR2), cyfeiriwch at y Cynllunydd Ysgol Bartner a/neu'r Canllaw ar Ymarfer Dysgu.

-A yw'r 'gwaith papur' ffurfiol yn gyfredol ar y PDP?

-Ydych chi wedi cyfathrebu gyda'r Tiwtor Ymarfer?

-Ydych chi wedi trefnu gwers i Gydlynydd Ysgol ei harsylwi? Cofiwch, bydd angen recordio'r wers hon a'i rhannu gyda'ch Tiwtor Ymarfer gan ddefnyddio Iris Connect.

## Cynnydd Academaidd

-Sut mae eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth wedi datblygu dros yr wythnos hon?

-Sut ydych chi'n rheoli'r cydbwysedd rhwng gwaith a gwaith astudio?

-Sut allwch chi gysylltu eich astudiaethau ar-lein â'ch ymarfer?

Uned A – Cwricwlwm
Uned B – Deall Dysgwyr
Uned C - Cynllunio ar gyfer dysgu.
Uned D – Addysgeg
Uned E – Asesu
Uned F – Ymarfer Proffesiynol

**ATM 01 (2000 o eiriau)**
Gwerthuso pa agweddau o'ch dysgu hyd yma sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth yn y cyfnod ymgyfarwyddo
Dewiswch un o'r Gweithgareddau Dysgu Ymarfer (GYD) 2, 3 neu 5. Esboniwch eich ymateb i'r GYD ac aseswch effaith ar eich ymarfer dysgu.

**ADM 01 - Tasg 1 (1000 o eiriau)**
Adolygiad beirniadol o bapur academaidd a adolygwyd gan gymheiriaid.

**Tasg 2 (uchafswm o 6 sleid a 10 munud o hyd)**
Cyflwyniad ar erthygl academaidd a sut mae hyn yn llywio eich ffordd o feddwl yng nghyd-destun eich ymarfer

**Tasg 3 (1000 o eiriau)**
Dadansoddiad o gynllunio ac addysgu dilyniant o wersi

**Rhan 2: Yr eBortffolio**
Tystiolaeth o gynnydd tuag at gyflawni deilliannau'r cymhwyster.

## Cefnogi Gweithgareddau Ymarfer Dysgu (GYD)

1. Dod i adnabod yr ysgol/ion a'r dosbarth/iadau.
2. Cysgodi Disgyblion
3. Cynllunio a Gwerthuso: cynllunio am yn ôl.
4. Archwilio'r pedwar diben fel ysgogwyr ar gyfer profiadau dysgwyr.
5. Ymgyfarwyddo ag Astudio Gwersi: Pwyslais penodol ar holi.

Bydd angen i fyfyrwyr ddewis naill ai GYD2, GYD3, GYD4 neu GYD5 fel ffocws ar gyfer yr Aseiniad mae'r Tiwtor yn Marcio (ATM).

6. Deall Anghenion Dysgu Ychwanegol
7. Cysylltu â rhieni a gofalwyr
8. Sgiliau pwnc / cyfnod, rheolaeth ac addysgeg

## Fy Mentora - Adfyfyrio

-Sut ydw i'n gwybod bod y myfyriwr yn datblygu?

-A yw fy nghefnogaeth mentora yn cael effaith?

-Pa gyfleoedd ychwanegol y gallaf eu cynnig i'r myfyriwr?

-Beth sydd angen i mi ei rannu gyda'r Cydlynydd Ysgol?

-A oes angen mwy o gefnogaeth ar y myfyriwr e.e., Fframwaith Cymorth i Fyfyrwyr?

## Targedau/Camau Nesaf

**-Pa agweddau y mae angen i chi ganolbwyntio mwy arnynt?**

**-Oes angen unrhyw gymorth arnoch?**

Ydy'r myfyriwr Ar y Trywydd Iawn? Os na, sicrhewch fod y Cydlynydd Ysgol yn ymwybodol a chysylltwch â'r Tiwtor Cwricwlwm. Cofiwch, hefyd, am y sesiwn wythnosol galw heibio ymarfer dysgu am arweiniad pellach.

Mae'r rhain wedi'u hamserlennu bob dydd Llun rhwng 3.30yp-4.00yp ac mae'r ddolen ar wefan y Bartneriaeth.

Wefan y Bartneriaeth